Atodiad 2

Crynodeb Gweithredol o Berfformiad ar gyfer Cyfnod
***Ebrill 2017 – Mawrth 2022***

Cynnwys uchafbwyntiau

Cyflawniadau, yn arbennig i unrhyw bartner

Risgiau / materion sy'n codi / Oedi neu rwystrau

Yn gyffredinol, sut fyddech chi'n crynhoi perfformiad tuag at gwrdd â blaenoriaethau ar hyn o bryd.



**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.**
**This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.**

# Cynllun Gweithredu Strategaeth Cymraeg 2017-2022

Diweddariad Cynnydd:
Ebrill 2017 – Mawrth 2022

Cydlynywd gan Anwen Cullinane – cullima@caerffili.gov.uk

Nod allweddol y strategaeth yw cynnydd isafswm o ***3%*** yn y nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2017 a 2022

Golyga hyn, erbyn 2021, y bydd gan fwrdeistref sirol Caerffili o leiaf ***14.2%*** o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg

Mae'r holl gamau gweithredu yn y cynllun hwn yn gweithio tuag at y nod hwnnw

| **Maes Strategol 1 – Y Teulu** | **Gweledigaeth** – Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu. | **Dyddiad yr adolygiad:**<br>**Amlder:** |
|---|---|---|

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Ymestyn cyfleoedd anffurfiol rheolaidd er mwyn i rieni ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn helpu eu plant i feithrin ac ennill hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith Gymraeg |
| • Creu neges gyson ar draws y sector, er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y teulu ac yn galluogi plant i gaffael yr iaith Gymraeg |
| • Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac argaeledd darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd |

| Rhif | Gweithred | Sylwadau Cynnydd | Statws | Dyddiad | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Hyrwyddo mudiadau sy'n hybu'r Gymraeg megis Menter Iaith Caerffili, Yr Urdd, Mudiad Meithrin, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent ac yn benodol eu gweithgareddau a'u gwasanaethau i deuluoedd (trwy rhyngweithiau cymdeithasol, Newsline, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) | Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn aml yn ail-drydaru ac yn ail bostio gwybodaeth gan sefydliadau Cymraeg ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Cynhaliwyd grwpiau cefnogi i rieni yn y sir gan Swyddog Cymraeg i Blant a gweithgareddau megis arwyddo, stori a chân 0-18 mis, tylino babi 0-9 mis a ioga babi 0-12 mis. Cynhaliwyd y grwpiau hyn yng Nghaerffili, Ystrad Mynach, Rhisga, Trethomas, Bargod, Rhymni a Thredegar Newydd.<br><br>Hyrwyddir y grwpiau gan GGID, partneriaid blynyddoedd cynnar, timoedd bydwragedd ac ymwelwyr iechyd Caerffili.<br><br>Dosbarthwyd llyfryn caneuon syml i blant bach Cymraeg, canllaw addysg Gymraeg, poster yr wyddor, llyfryn 'Siarad 2 Iaith,' taflen gyffredinol Mudiad Meithrin, taflen amlieithog Mudiad Meithrin, podlediad 'Baby Steps into Welsh,' rhestr chwarae Gymraeg i blant ar Spotify a sianel YouTube Mudiad Meithrin.<br><br>Cynhaliwyd grwpiau Ti a Fi rhithiol a lleol a chefnogi rhieni i ystyried anfon eu plant i'r Cylch Meithrin. | Ar waith o hyd | | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili<br><br>Mudiad Meithrin Cymraeg i Blant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynhaliwyd Clwb Cwtsh - cwrs 8 wythnos ar-lein am ddim i rieni newydd a'r teulu estynedig.<br>Crëwyd a chadwyd rhestr o Gylchoedd Meithrin yn sir Caerffili.<br>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo ei gwasanaethau ei hunan yn ogystal â gweithgareddau a gwasanaethau partneriaid a chyrff eraill. Gwneir hyn trwy system ebostio'r Fenter, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y Fenter ac wrth gydnabod gwaith partneriaeth ar draws ei gwasanaethau. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â Chyngor Caerffili er mwyn hyrwyddo ein gwaith ac yn annog partneriaid i gydweithio yn yr un modd. Ar lefel genedlaethol, mae Menter Caerffili yn aelod o rwydwaith cenedlaethol o Fentrau Iaith ac yn hyrwyddo gwaith trawstoriad o fudiadau trwy'r rhwydwaith. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth am ein gwasanaethau gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerffili ac yn fwy diweddar gwasanaeth Dewis.<br><br>Mae Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg Cyngor Caerffili wedi bod yn hyrwyddo gwaith a gwasanaethau ei holl bartneriaid gan gynnwys gwaith sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y Fforwm Iaith. Defnyddir sianeli cyfryngau cymdeithasol a system ebost y Cyngor i hyrwyddo'r wybodaeth. Buom yn annog partneriaid i gydweithio â ni yn yr un modd. | Ar waith o hyd<br><br>Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022<br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |
| 1.2 | Ffurflenni gwerthuso digwyddiadau yn cynnwys cwestiynau ynghylch defnydd iaith | Anfonwyd ffurflen adborth i bob rhiant sydd wedi mynychu ein grwpiau ar ddiwedd bob tymor<br><br>Yn ystod ein holl weithgareddau, rydym yn dosbarthu ac yn casglu ffurflenni a gwybodaeth gwerthuso digwyddiadau. Mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am farn ac anghenion pobl leol ac yn nodi dewis a defnydd iaith cyfranogwyr. Atgyfnerthir y wybodaeth werthuso hon gan | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Mudiad Meithrin Cymraeg i Blant<br><br>Menter Iaith Caerffili |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | astudiaethau achos mwy manwl sy’n dangos effaith gweithgareddau a gwasanaethau ar ddefnydd iaith unigolion. | | | |
| 1.3 | Datblygu adnodd gwybodaeth cynhwysfawr (llyfryn/adnodd arlein) sy’n dangos y gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd a’r daith trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â’r manteision i ddwyieithrwydd | Gwefan Mudiad Meithrin i rieni<br><br>Fideo ‘Beth yw Cylch Meithrin?’<br><br>Hyrwyddir y llyfryn Bod yn Ddwyieithog gyda rhieni a phartneriaid – mae pob rhiant yn derbyn copi caled drwy fynychu ein grwpiau a rhennir copiau digidol yn gyson ar Facebook Cymraeg i Blant Caerffili.<br>Mae Fforwm Iaith Sir Caerffili wedi sicrhau cyllid er mwyn cynhyrchu’r adnodd ac argraffwyd y llyfryn yn Rhagfyr 2018 a dechreuwyd ar y broses o’i ddosbarthu yn eang ar draws y Sir. Derbyniodd partneriaid ac aelodau’r Fforwm gyflenwad o’r llyfryn er mwyn ei ddosbarthu yn ystod gweithgareddau, digwyddiadau a’u gwaith o gefnogi teuluoedd yn lleol. Erbyn hyn mae’r Fforwm a Grwp Marchnata Fforwm CSGA Caerffili yn trafod ymhellach y cyfle i drosglwyddo’r llyfryn i fod yn adnodd ar-lein yn y dyfodol, diweddaru’r llyfryn a chynhyrchu animeiddiad o’r cynnwys. Y bwriad gyda’r datblygiadau newydd hyn yw sicrhau ein bod yn medru rhannu negeseuon allweddol. Bwriedir cwblhau’r gwaith pellach hwn yn ystod mis Mai a Mehefin 2022.<br><br>Buom yn cydweithio â’r Fforwm Iaith i geisio tynnu gwybodaeth at ei gilydd i greu llyfryn Bod yn Ddwyieithog. Cafodd y llyfryn ei rannu gyda nifer fawr o wasanaethau’r cyngor i sicrhau bod y llyfryn yn cyrraedd cynulleidfa eang ac yn cael ei ddefnyddio. | Wedi ei gwblhau<br><br>Wedi’i gwblhau | Ebrill 2018 – Mawrth 2022<br><br>Ebrill 2018 – Mawrth 2022 | Mudiad Meithrin – Cymraeg i Blant<br><br>Menter Iaith Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |
| 1.4 | Newsline i ddatblygu erthygl (dwywaith y flwyddyn) yn hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol trwy’r Cyngor neu sefydliadau partner | Mae aelodau Fforwm Iaith y Sir yn awyddus i gydweithio gyda’r swyddogion hynny sy’n cynhyrchu Newsline er mwyn cynyddu’r deunydd sy’n ymddangos yn y papur sy’n hyrwyddo’r cyfleoedd yn lleol i ddefnyddio’r Gymraeg. Trwy’r Fforwm, mae aelodau wedi derbyn gwybodaeth ynglyn â sut i | Gwaith pellach i’w gyflawni er mwyn | Ebrill 2018 – Mawth 2022 | Menter Iaith Caerffili |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ddarparu deunydd ar gyfer y papur ac yn awyddus i gydweithio ymhellach er mwyn sicrhau sylw digonol i'r Gymraeg o fewn y papur yn gyson. Mae'r Fenter wedi cydweithio er mwyn cynnwys nifer o erthyglau am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Sir Caerffil gan gynnwys erthygl am Ffiliffest a chyfleoedd yn ystod y gwyliau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gwnaethom sicrhau fod aelodau'r Fforwm Iaith yn gwybod pryd mae dyddiadau argraffu Newsline (papur misol y cyngor) er mwyn iddynt gyflwyno erthyglau/gwybodaeth i ymddangos yn y rhifyn nesaf. | cynyddu'r sylw i'r Gymraeg yn y papur<br><br>Angen mwy o gynnwys Cymraeg | <br><br>Ebrill 2018 – Mawrth 2022 | <br><br>Polisi Corfforaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Maes Strategol 2 –** Plant a Phobl Ifanc | **Gweledigaeth** – Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, gwella'u hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg, a sicrhau gwell mynediad i wasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg | **Dyddiad yr adolygiad:**<br>**Amlder:** |

**Blaenoriaethau Strategol**

- Cefnogi addysgwry (athrawon, gweithwyr ieuenctid ac ati) er mwyn iddynt allu hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
- Gweithio gyda phobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgìl gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr sydd â chyswllt â phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg
- Cynyddu'r nifer o blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg
- Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymysg pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddatblygu i fod yn pencampwyr dros y Gymraeg yn eu cymunedau

| Rhif | Gweithred | Sylwadau Cynnydd | Statws | Dyddiad | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Cynnal archwiliad o'r cyfleoedd a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn adnabod bylchau ac ardaloedd lle ceir galw uchel. | Mudiad Meithrin yn cwrdd gyda thîm Blynyddoedd Cynnar yn sir Caerffili i drafod pan fo angen. Roedd cyfle wedi codi yn ardal Bedwas, Threthonas a Machen i ddatblygu Cylch Meithrin newydd drwy gynllun Sefydlu A Symud.<br><br>Comisiynodd Menter Iaith Sir Caerffili Broffil Iaith o sefyllfa'r Gymraeg yn y sir ym Mai 2016 ac yna ym mis Hydref 2020. Yn | | <br><br><br><br>Medi 2021 – Mawrth 2022 | Mudiad Meithrin Cymraeg i Blant<br><br><br>Menter Iaith Caerffili |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ogystal, mae CSGA newydd Caerffili yn nodi'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i blant a phobl y Sir. Rhwng Medi 2021 a Mawrth 2022 bu Menter Iaith Sir Caerffili yn cydweithio â'r Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor B.S.Caerffili i gwblhau archwiliad manwl o'r cyfleoedd a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn adnabod bylchau a'r ardaloedd daearyddol hynny lle nad oes digon o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Cwblhawyd yr arolwg a gwaith mapio erbyn diwedd Mawrth 2022 a byddwn yn cyflwyno adroddiad terfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fe fydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cynnig sylfaen ar gyfer cynllunio pwrpasol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu cymunedau. | Angen trafod a chytuno'r gwaith | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.2 (ac 1.1) | Hyrwyddo mudiadau cyfrwng Cymraeg megis Yr Urdd a Menter Iaith Caerffili yn eang ac yn benodol eu gwasanaethau i blant a phobl ifanc | Bob blwyddyn, mae Coleg y Cymoedd yn cynhyrchu llyfryn o'r new 'Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd/Welsh at Coleg y Cymoedd'. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael yn y coleg ynghyd â'r gefnogaeth sydd yn cael ei chynnig gan bartneriaid allanol megis Menter Iaith Caerffili a'r Urdd. Cyhoeddir y llyfryn hwn ar wefan y coleg a'r adran Gymraeg yn Student Life. Mae copïau caled ar gael yn y dderbynfa a'r Ganolfan Ddysgu ar bob campws. | | | Coleg y Cymoedd |
| | | Mae partneriaeth Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili gydag Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith Caerffili wedi ei hymestyn ymhellach ac wedi'i hyrwyddo yng Nghynhadledd Gwaith Ieuenctid Genedlaethol 2021 a thrwy brosiect arbennig Llywodraeth Cymru - Gwaith Ieuenctid Cymraeg. | | | Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili |
| | | Hyrwyddir digwyddiadau teuluol a digwyddiadau eraill y Fenter gyda rhieni newydd yn grwpiau Cymraeg i Blant. | | | Mudiad Meithrin Cymraeg i Blant |
| | | Fel y nodir yn 1.1, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo ei gwasanaethau ei hunan yn ogystal â gwasanaethau a gwaith mudiadau eraill. Gwneir hyn trwy ein system ebostio, cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan ac yn ystod gweithgareddau'r Fenter. Yn ogystal, yn ystod unrhyw ddigwyddiadau cymunedol, rydym yn gwahodd partneriaid. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – March 2022 | Menter Iaith Caerffili |
| | | Gweler ymateb yn 1.1 | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |
| 2.3 | Gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o fudiadau megis Yr Urdd, Menter Iaith Caerffili, Gyrfa Cymru a Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch gwerth sgiliau iaith Gymraeg | Yn Chwefror 2018, cynhaliodd Coleg y Cymoedd ddigwyddiad o'r enw Ffair Swyddi 'Sgil Iaith, Sgil Gwaith'. Nod y digwyddiad oedd dangos i ddysgwyr y gallai defnyddio a meithrin eu sgiliau iaith Gymraeg fod yn fuddiol iddynt yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol a rhoi platfform i'r cyflogwyr hynny a oedd yn chwilio am gyflogeion â sgiliau Cymraeg. Mynychodd 17 o gyflogwyr y digwyddiad ar Gampws Nantgarw. | | | Coleg y Cymoedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | yn nhermau gyrfa neu cyfleoedd cyflogaeth | Mae Tîm y Gymraeg a Thîm y Dyfodol Coleg y Cymoedd yn chwilio'n rheolaidd am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth am werth sgiliau Cymraeg o ran cyflogadwyedd.<br>Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol (prentisiaethau) - cynllun hyfforddi a chymhwyso ymarferwyr mewn Lefel 3 neu Lefel 5 (Rheoli ac Arwain) Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.<br><br>Rhennir negeseuon am werth dwyieithrwydd cynnar a manteision cael sgìl ychwanegol wrth chwilio am waith gyda rhieni Cymraeg i blant.<br><br>Mae'r Fforwm Iaith yn trafod, ar hyn o bryd, ddigwyddiad ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Byddai'r digwyddiad yn gyfle i holl aelodau'r Fforwm i ddosbarthu gwybodaeth i fyfyrwyr yr ysgol am y math o wasanaethau maent yn darparu a'r cyfleoedd gyrfaol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae Menter Iaith Sir Caerffili hefyd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli niferus i siaradwyr Cymraeg ifanc ac ar hyn o bryd yn cefnogi gwirfoddolwyr o fewn ein gwasanaethau gofal plant a'n gweithgareddau amrywiol i blant a phobl ifanc. Ar y cyd â sefydliadau eraill yn lleol, bu'r Fenter hefyd yn cyfrannu at Ddiwrnod Byd Gwaith yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni er mwyn pwysleisio gwerth sgiliau iaith Gymraeg a'r cyfleoedd yn lleol i ddilyn gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg. | Ar waith o hyd | I'w gytuno | Mudiad Meithrin<br><br>Cymraeg i Blant<br><br>Menter Iaith Caerffili |
| | | Roedd yr Uned Polisi Corfforaethol wedi cydweithio â Gyrfa Cymru i recordio fideo Cymraeg a Saesneg i ysgolion ddefnyddio yn y cyfnod clo. Pwrpas y fideo oedd i hyrwyddo gwerth sgiliau iaith a pha mor bwysig ydynt yn y byd gwaith.<br><br>Ar y cyd â sefydliadau eraill yn lleol, bu'r Uned Polisi Corfforaethol yn cyfrannu at Ddiwrnod Byd Gwaith yn Ysgol | Ar waith o hyd | I'w gytuno | Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gyfun Cwm Rhymni er mwyn pwysleisio y gyrfaoedd sydd ar gael gyda Chyngor Caerffili a hefyd gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn y maes gwaith. Anogwyd y myfyrwyr i wisgo bathodyn iaith gwaith pan fyddant yn gweithio yn y gymuned. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.4 | Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal â phecyn adnoddau<br>er mwyn cefnogi darpariaethau i hyrwyddo’r Gymraeg a threftadaeth leol | Fel rhan o raglen ymsefydlu Coleg y Cymoedd i staff newydd, rhaid i bob aelod o staff gwblhau dau fodiwl ar-lein – Safonau’r Gymraeg ac Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg. Mae staff sy’n cwblhau’r cyrsiau ac yn pasio’r cwis ar y diwedd yn ennill bathodyn digidol.<br><br>Cynllun **Croesi’r Bont** - Defnyddir y dull trochi iaith Croesi’r Bont i gyflwyno’r Gymraeg i blant ifanc sy’n mynychu ein Cylchoedd Meithrin. Cynhelir yr holl weithgareddau chwarae drwy’r Gymraeg er mwyn annog plant i gyfathrebu gydag oedolion a’u ffrindiau drwy gyfrwng yr iaith. Yn yr awyrgylch hwn, gall plant ddatblygu eu sgiliau ieithyddol drwy gwricwlwm cyflawn sy’n cynnwys cyfleoedd chwarae strwythuredig a rhydd, ynghyd â chynllun trochi iaith. Mae hyn hefyd yn helpu datblygu iaith staff sydd yn dysgu’r Gymraeg.<br><br>Mae Menter Iaith Sir Caerffili wedi datblygu pecynnau ymwybyddiaeth iaith amrywiol er mwyn cefnogi darpariaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn awyddus i gydweithio â’r Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili er mwyn datblygu cefnogaeth pellach i brosiectau a gwasanaethau ieuenctid. Byddai hwn yn medru cynnig hyfforddiant fel rhan o raglen hyfforddiant y gwasanaeth ieuenctid yn ogystal â datblygu pecyn o adnoddau a fyddai’n cynorthwyo staff i hyrwyddo Cymreictod a threftadaeth leol. Yn ogystal, fel rhan o wythnos hyfforddiant y Gwasanaeth Ieuenctid ym mis Chwefror 2022, bu’r Fenter yn cynnal sesiwn hyfforddiant i weithwyr ieuentid er mwyn trafod yr heriau a’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg o fewn darpariaethau ieuenctid. Bwriad y sesiwn oedd hefyd i gefnogi’r gweithwyr hynny sydd yn siaradwyr Cymraeg ond sy’n isel eu hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg yn eu gwaith. | <br><br><br>Chwefror 2022 | <br><br><br>Chwefror 2022 | Coleg y Cymoedd<br><br>Mudiad Meithrin<br><br>Menter Iaith Caerffili |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rydym yn awyddus i barhau i weithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn datblygu cefnogaeth i'r gweithwyr hyn a allai arwain at ddefnydd uwch o Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid.<br>Mae Menter Iaith Sir Caerffili wedi datblygu pecynnau ymwybyddiaeth iaith amrywiol er mwyn cefnogi darpariaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Fel rhan o wythnos hyfforddiant Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerffili ym mis Chwefror 2022, bu'r Fenter yn cynnal sesiwn hyfforddiant i weithwyr ieuentid er mwyn trafod yr heriau a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn darpariaethau ieuenctid. Bwriad y sesiwn oedd hefyd cefnogi'r gweithwyr hynny sydd yn siaradwyr Cymraeg ond sy'n isel eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.<br><br>Trefnwyd dau gwrs Ymwybyddiaeth Iaith i aelodau staff y Cyngor.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn dathlu diwrnodau calendar penodol i godi ymwybyddiaeth megis: Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, Diwrnod Shwmae, Diwrnod Iaith Gwaith a Diwrnod Mae Gen i Hawl. | Chwefror 2022 | Chwefror 2022 | Polisi Corfforaethol |
| 2.5 | Ymgynghori a datblygu ymgyrch i ddenu<br>pobl ifanc at waith ieuenctid, chwaraeon a gweithgareddau celfyddydol fel arweinwyr ifanc | Mae partneriaeth Gwaith Ieuenctid Caerffili wedi ymgynghori'n drylwyr â phobl ifainc ynghylch eu profiadau hwy o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.<br><br>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i weithio gyda'r Urdd, Adran Chwaraeon yr Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerffili er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gyrfaol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym brinder gweithwyr ieuenctid sy'n medru siarad Cymraeg yn y Sir a'r galw am wasanaethau ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn cynyddu. Rydym yn awyddus i drafod cynlluniau posib ar gyfer ymgyrch hyfforddiant a recriwtio yn ystod y flwyddyn nesaf. | Trafodaethau i ddod yn ystod Ebrill 2022-Mawrth 2023. | Ebrill 2019 - Mawrth 2022 | Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili<br><br>Menter Iaith Caerffili |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.6 | Cynllunio, cydlynu a hyrwyddo calendr o weithgareddau gofal a chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc 11-18<br>oed | Bob blwyddyn, mae gan Goleg y Cymoedd galendr o ddigwyddiadau Cymraeg yn ffocysu ar Ddiwrnod Shwmae/Su'mae; Diwrnod Hawliau'r Gymraeg; Wythnos Gymraeg (Dydd Gŵyl Dewi); Ffiliffest. Mae hyn yn gyfle i ddarparu digwyddiadau Cymraeg i ddysgwyr.<br><br>Mae'r Coleg yn cynnig clwb gweithgareddau yn y Gymraeg o'r new 'Clwb y Dreigiau' ar bob campws. Cynhelir y clwb ddwywaith y tymor.<br>Mae gan siaradwyr Cymraeg y cyfle i gael eu cyflogi fel Llysgenhadon Iaith Gymraeg a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br><br>Er bod Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau gofal a chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc y sir, fel partneriaid, nid ydym wedi cydweithio ar un calendr o weithgareddau. Mae aelodau'r Fforwm Iaith yn cydweithio'n agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir er mwyn hyrwyddo'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i deuluoedd yn y sir ond rydym yn croesawu'r cyfle i drafod datblygu calendr sy'n crynhoi'r hyn sydd ar gael i deuluoedd. | Ar waith o hyd | Ebrill 2019 – Mawrth 2023 | Coleg y Cymoedd<br><br>Menter Iaith Caerffili |
| 2.7 | Cynllunio, cydlynu a hyrwyddo calendr o weithgareddau gofal, chwarae a hamdden cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 4-11 oed. | Er bod Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau gofal a chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc y sir, fel partneriaid, nid ydym wedi cydweithio ar un calendr o weithgareddau. Mae aelodau'r Fforwm Iaith yn cydweithio'n agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir er mwyn hyrwyddo'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i deuluoedd yn y sir ond rydym yn croesawu'r cyfle i drafod datblygu calendr sy'n crynhoi'r hyn sydd ar gael i deuluoedd. | Ar waith o hyd | Ebrill 2019 – Mawrth 2023 | Menter Iaith Caerffili |

| Maes Strategol 3 – Cymunedau | **Gweledigaeth** – Cefnogi grwpiau cymunedol a'u helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu hardaloedd | **Dyddiad yr adolygiad:**<br>**Amlder:** |
|---|---|---|

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Cefnogi gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg presennol a rhannu arfer da |
| • Cefnogi grwpiau cymunedol i brif-ffrydio defnydd o'r iaith Gymraeg a chynnig y cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith |
| • Darparu cymorth penodol i fentrau cymunedol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cynlluniau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg |

| Rhif | Gweithred | Sylwadau Cynnydd | Statws | Dyddiad | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog trwy sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o fewn gwasanaethau yn gwisgo llinyn neu bathodynnau addas yn dangos eu sgil, fe fydd hwn yn annog y cyhoedd yn raddol i siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau. | Dosberthir cortynnau gwddf/bathodynnau i staff sy'n siarad Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd. Anogir staff i wisgo'r rhain. | | | Coleg y Cymoedd |
| | | Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn dosbarthu llinynnau gwddf a bathodynnau addas i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys ysgolion a busnesau ar draws y sir. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith |
| | | Darparwyd llinynau gwddf a bathodynnau i aelodau staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg er mwyn arddangos bod gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar ein porthol i staff. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |
| 3.2 | Cynllunio a chydlynu ymgyrch er mwyn dosbarthu bathodynnau ac arwyddion iaith Gymraeg ar draws busnesau a mudiadau er mwyn cefnogi pobl leol i ddefnyddio'r Gymraeg. | Fel rhan o'n Prosiect Y Gymraeg mewn Busnes ac yna Helo Blod Lleol bu Menter Iaith Sir Caerffili yn dosbarthu bathodynnau ac arwyddion iaith Gymraeg ymysg busnesau a sefydliadau'r sir. Bu'r prosiect yn cefnogi busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac mae'n dangos yn glir bod gwasanaethau dwyieithog ar gael i'r cyhoedd yn rhan bwysig o'r broses. | Gwnaeth prosiect Helo Blod i ben yn Ebrill 2022. | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith Cymru |
| | | Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda Menter Iaith Sir Caerffili er mwyn sicrhau bod busnesau lleol yn ymwybodol o'r angen i hyrwyddo gwasanaethau trwy'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol - cysylltiadau trwy'r Fforwm Busnes Caerffili. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.3 | Cefnogi datblygiad a hyrwyddo cyfeirlyfr/ffônlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol. | Yn ystod Ebrill - Mai 2017, lansiodd Menter Iaith Sir Caerffili gyfeirlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir. Dosbarthwyd y cyfeirlyfr yn eang ar draws y sir a derbyniwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r adnodd. Rydym yn trafod ar hyn o bryd y posiblirwydd o ddatblygu'r wybodaeth i fod yn adnodd ar lein a rhyngweithiol a'i osod ar wefan Menter Caerffili.<br><br>Cyfrannwyd at gyfeirlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg y Fenter Iaith a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2017. Mae angen ei ddiweddaru a'i roi mewn fformat digidol. | Ar waith o hyd<br><br>Ar waith o hyd | Mai 2017<br><br>Mai 2017 | Menter Iaith Cymru<br><br>Polisi Corfforaethol |
| 3.4 | Cefnogi a hyrwyddo datblygiad Ffiliffest, gŵyl flynyddol Menter Iaith Caerffili sy'n dathlu'r iaith Gymraeg a threftadaeth leol. Byddai hwn yn cynnwys cefnogaeth gan adrannau megis Twristiaeth, Hamdden, Datblygu'r Celfyddydau, Gwasanaeth Ieuenctid a Chyfathrebu. | Mae Mudiad Meithrin yn cefnogi Ffilifest<br><br>Yn ystod mis Mehefin yn flynyddol, mae'r Fenter yn cynnal ei gŵyl haf, Ffiliffest, yng Nghastell Caerffili. Mynychir yr ŵyl gan yn agos at 5000 o bobl yn flynyddol a chefnogir y diwrnod gan aelodau'r Fforwm yn ogystal â nifer o sefydliadau eraill. Derbynnir cefnogaeth werthfawr gan swyddogion marchnata a chyfathrebu Cyngor Caerffili.<br>Yn ystod yr ŵyl, darperir rhaglen o weithgareddau amrywiol i blant a theuluoedd yn ogystal ag ardal gemau fideo a llwyfan gyda cherddoriaeth fyw. Cynhelir yr ŵyl unwaith eto yn 2022 ar Gaeau Owain Glyndwr yng Nghaerffili ac rydym yn awyddus iawn i gydweithio ag adrannau amrywiol y Cyngor er mwyn hyrwyddo a datblygu'r ŵyl ymhellach.<br><br>Rydym yn cydweithio yn agos gyda Menter Iaith Sir Caerffili trwy greu cyswllt rhyngddynt hwy a gwasanaethau'r Cyngor. Rydym yn eu cefnogi mewn cyfarfodydd gyda gwasanaethau penodol er mwyn ceisio adeiladu perthynas a sicrhau bod y cydweithio yn llwyddiannus. | <br><br>Trafodaethau pellach i ddod o ran cefnogaeth bellach gan Gyngor Caerffili<br><br>Ar waith o hyd - angen mwy o drafod ac adeiladu perthynas | <br><br>Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2022 | Mudiad Meithrin<br><br>Menter Iaith Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Bu adrannau penodol y Cyngor yn cefnogi gweithgareddau'r Fenter Iaith megis Ffiliffest a'r clwb cerdded | rhwng y Cyngor a'r Fenter Iaith | | |
| 3.5 | Sicrhau fod mewnbwn a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg o fewn rhaglen digwyddiadau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>(Y Caws Mawr, Parti Traeth Coed Duon, marchnadoedd Nadolig ayyb). | Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn croesawu unrhw gyfle i gydweithio â Chyngor Caerffili er mwyn cynyddu'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o fewn ei rhaglen digwyddiadau cymunedol.<br><br>Bu Menter Caerffili yn darparu gwasanaeth cyhoeddiadau cyhoeddus dwyieithog ar ran y Cyngor o fewn rhai o'i digwyddiadau gan gynnwys Y Caws Mawr yn 2019.<br><br>Defnyddiwyd y Fenter Iaith i ddarparu cyhoeddiadau dwyieithog yng Ngŵyl y Caws mawr yn 2019.<br><br>Rydym yn parhau i siarad gydag adrannau'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg wrth greu dogfennaeth farchnata ddwyieithog. | Trafodaethau pellach i ddod<br><br>Ar waith o hyd – angen mwy o drafod ac adeiladu perthynas rhwng y Cyngor a'r Fenter Iaith | Ebrill 2017 - Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |

| Maes Strategol 4 – Gwasanaethau Iaith Gymraeg | Gweledigaeth – Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffil | Dyddiad yr adolygiad: Amlder: |
|---|---|---|

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Y safonau iaith perthnasol yn cael eu gweithredu |
| • Dylai uwch reolwyr y cyngor dangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithio a chontractau a dogfennau comisiynu 3**ydd** parti |
| • Dosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y cyngor a sefydliadau partner |

| Rhif | Gweithred | Sylwadau Cynnydd | Statws | Dyddiad | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Parhau i annog pob adran o fewn y Cyngor i ddefnyddio nwyddau a bathodynnau Iaith Gwaith (Safon 68). | Staff Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn parhau i wisgo cortynnau gwddf Iaith Gwaith a rhai Dysgu Cymraeg yn ein mannau gwasanaethu.<br><br>Gweler yr ymateb o dan 3.1 ar gyfer Polisi Corfforaethol. | Ar waith o hyd<br><br>Ar waith o hyd | <br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |
| 4.2 | Cefnogi ac annog siaradwyr Cymraeg ymhlith gweithwyr y Cyngor i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle. | Anogir a chefnogir staff Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili o hyd i gofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg a gefnogir gan yr awdurdod.<br><br>O ran defnydd y Gymraeg, mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili wedi cwblhau awdit perthnasol o'i staff ac yn gweithio ar roi mynediad i raglenni codi hyder yn y Gymraeg.<br><br>Rydym yn gwisgo bathodynnau a cordynnau gwddf fel bod cyfle gan siaradwyr a dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ar lafar. Rydym hefyd wedi rhoi cyfres o wybodaeth ar ein porthol mewnol i gefnogi staff wrth ddeall Safonau'r Gymraeg a sut mae eu rhoi ar waith.<br><br>Ym mhencadlys y Cyngor, rydym yn arddangos ***Ymadrodd yr Wythnos***. Cyfres o ymadroddion mae staff yn gallu defnyddio yn eu diwrnod gwaith. O dan yr ymadroddion dangosir mewn ffordd ffonetig sut i ynganu'r ymadrodd. | Ar waith o hyd<br><br><br><br>Ar waith o hyd | <br><br><br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili<br><br>Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Crëwyd cardiau desg ar gyfer staff ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog, sut i wneud negeseuon allan o'r swyddfa, negeseuon ar gyfer peiriannau ateb a negeseuon systemau ffôn awtomataidd yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.<br>Mae gan yr awdurdod drwydded sefydliad ar gyfer Cysgliad ac mae'r meddalwedd ar gael ar bob cyfrifiadur y Cyngor.<br><br>Lansiwyd ymgyrch blwyddyn i godi statws y Gymraeg yn fewnol ar gyfer staff ond hefyd yn allanol ar gyfer y cyhoedd. Enw'r ymgyrch yw 'Gwnewch y Pethau Bychain'. Mae'r ymgyrch yn cynnig syniadau i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd. | | | |
| 4.3 | Cynllunio er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth wedi ei seilio ar adborth a'r nifer o gwynion a dderbyniwyd. | Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn monitro unrhyw gwynion neu sylwadau a dderbynnir am ddarpariaeth y Gymraeg.<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili wedi sicrhau fod canolfan newydd yng Nghaerffili ble y cynhelir gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gwnaethom sicrhau bod unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi, eu hymchwilio a bod unrhyw newidiadau sydd eu hangen, yn cael eu gwneud yn unol â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Adroddir yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg y cwynion mae'r Cyngor yn derbyn am/neu yn y Gymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.<br><br>Ychwanegwyd categorïau cydraddoldeb a'r Gymraeg i'r system gwynion fel y gallwn fonitro os oes unrhyw gwynion ag elfen gydraddoldeb neu iaith Gymraeg. Bydd hyn yn helpu gydag adroddiadau blynyddol ac i nodi unrhyw dueddiadau. | Ar waith o hyd<br><br><br><br><br><br><br>Ar waith o hyd | <br><br><br><br><br><br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili<br><br>Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.4 | Datblygu Cynllun Gwobrwyo ar gyfer cyrsiau i ddysgwyr yr iaith Gymraeg – Dysgwr y Flwyddyn/Gwasanaeth sy’n dangos y cynnydd mwyaf ayyb. | Mae Cynllun Adnabod Staff ar waith a gobeithir y bydd un o’r gwobrau yn un ar gyfer Gwasanaeth neu Dîm sy’n cydymffurfio’n dda neu Wasanaeth/Tîm Dwyieithog y Mis. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.5 | Grwpiau/digwyddiadau ar gyfer dysgwyr o fewn y Cyngor i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg. | Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi dysgwyr y Gymraeg ar draws y Sir ac yn trefnu rhaglen o gyfleoedd wythnosol a misol ar eu cyfer. Rydym yn awyddus i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ymysg dysgwyr y Cyngor.<br><br>Rydym yn gobeithio sefydlu rhywbeth yn y dyfodol agos unwaith rydym wedi cyflogi staff ychwanegol i'r tîm. Gobeithir defnyddio sefydliadau fel y Fenter Iaith i ddod i mewn i drafod ac i hyrwyddo eu gwasanaethau.<br><br>Gwnaethom gynnig Prosiect Hyder Menter Iaith Sir Caerffili i staff a Cyngor a gwnaeth nifer ohonynt fynychu. | <br><br><br><br><br>Ar waith o hyd | <br><br><br><br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili<br><br><br><br><br>Polisi Corfforaethol |
| 4.6 | Cysylltu â phartneriaid er mwyn canfod faint o swyddi iaith Gymraeg hanfodol sydd ganddynt, natur y swyddi a sut recriwtir ar eu cyfer. | Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn asesu pob swydd wag adeg recriwtio. | Ar waith o hyd | | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili |
| 4.7 | Cysylltu â phartneriaid er mwyn canfod pa fudiadau sy'n darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i staff a sut darperir yr hyfforddiant. | Fel rhan o raglen ymsefydlu Coleg y Cymoedd i staff newydd, rhaid i bob aelod o staff gwblhau dau fodiwl ar-lein – Safonau'r Gymraeg ac Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae staff sy'n cwblhau'r cyrsiau ac yn pasio'r cwis ar y diwedd yn ennill bathodyn digidol.<br><br>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn medru darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith wedi ei deilwra at adrannau penodol.<br><br>Trefnwyd dau gwrs Ymwybyddiaeth Iaith i aelodau staff y Cyngor. Mae angen fwy o gydweithio ymhlith aelodau'r Fforwm Iaith i gydlynu'r hyfforddiant a'r ddarpariaeth yn well. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ar waith o hyd | <br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Coleg y Cymoedd<br><br><br><br><br><br>Menter Iaith Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |
| 4.8 | Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ym mhwynt 4.6 uchod i ddatblygu rhaglen marchnata gan gynnwys ffair swyddi cyfrwng Cymraeg yn flynyddol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymysg y gymuned a phobl ifanc am | Fel y nodwyd eisoes, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi rhaglen marchnata swyddi cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd o fewn sectorau amrywiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. | | | Menter Iaith Caerffili |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyfleoedd gyrfa posib ar gyfer siaradwyr y Gymraeg. | Byddai'r Cyngor â diddordeb mawr mewn sicrhau bod digwyddiad o'r fath yn cael ei gynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr lleol am y galw sydd am siaradwyr Cymraeg mewn gweithleoedd. Mae angen sicrhau taw prif neges y digwyddiad yw gwerth yr iaith Gymraeg yn y gymuned ac yn y byd gwaith. Byddwn yn cydweithio fel Fforwm Iaith i geisio trefnu digwyddiad o'r fath. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |
| 4.9 | Adrannau'r Cyngor i gofnodi manylion pan fo aelod o'r cyhoedd yn nodi eu bod am cynnal galwadau ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg (Safon 21). | Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn parhau i wneud hyn.<br><br>Rhaid i adrannau unigol y Cyngor sicrhau eu bod nhw'n cofnodi hyn ac wedyn yn gwneud yn siŵr bod pob galwad a wnaed i'r person hwnnw gael ei gwneud yn ei ddewis iaith. Ar waith. | Ar waith o hyd<br><br>Ar waith o hyd | | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |
| 4.10 | Cynyddu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn cwrdd â gofynnion y cynnig gweithredol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gallu i gysylltu â'r awdurdod lleol trwy gyfrwng y Gymraeg dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu trwy gyfathrebiaeth ysgrifenedig. | Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn parhau i wneud hyn ac i gynnig y gwasanaeth.<br><br>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi Cyngor Caerffili wrth gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chefnogi'r Cyngor i fesur cynnydd wrth gwrdd â gofynnion y cynnig gweithredol.<br><br>Ar dempled llythyron y cyngor mae'r frawdddeg ***'Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.'***<br><br>Rydym hefyd yn hysbysu yn Newsline ***'Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg'***.<br><br>Mae Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi rhedeg nifer o sesiynau hyfforddiant ar y cynnig gweithredol i staff. | Ar waith o hyd<br><br>Ar waith o hyd | <br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili<br><br>Menter Iaith Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae gwybodaeth ar ein Porthol mewnol yn cynghori aelodau staff o'r gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. | | | |
| 4.11 | Datbygu partneriaethau gwell rhwng adrannau'r Cyngor a phartneriaid. | Mewn cyfarfodydd buom yn hyrwyddo partneriaethau gwahanol gan gynnwys y sefydliadau sydd ar y Fforwm Iaith a'r Fenter Iaith os yw'n berthnasol. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |

| Maes Strategol 5 – Y Gweithle | Gweledigaeth – Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | Dyddiad yr adolygiad:<br>Amlder: |
|---|---|---|

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Cynyddu sgiliau ac ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ymhlith rheolwyr lleol. |
| • Cynyddu'r wybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff sy'n gweithio o fewn y cyngor a sefydliadau partner. |
| • Cynyddu cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn sgìl gwerthfawr yn y gweithle. |
| • Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel sgìl wrth recriwtio, ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am swyddi a chyflogaeth. |
| • Galluogi a chefnogi staff rhugl a staff sy'n dysgu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |
| • Cydymffurfiaeth gan Wasanaethau a Gomisiynwyd a Darpariaeth Trydydd Parti Annibynol. |

| Rhif | Gweithred | Sylwadau Cynnydd | Statws | Dyddiad | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Cynyddu gwaith partneriaeth rhwng partneriaid a'r Cyngor er mwyn hyrwyddo gwerth y Gymraeg. | Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili yn annog cyd-weithio o hyd yn gweithio â phartneriaid Cymraeg gan gynnig adnoddau amrywiol megis gwagleoedd, ystafelleoedd a chyflenwadau'r llyfrgelloedd. | Ar waith o hyd | | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili |
| | | Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn gweithio mewn partneriaeth agos ag amrywiaeth o adrannau'r Cyngor gan gynnwys: Gwasanaeth Ieuenctid, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Datblygu Economaidd, Tim RDP, Cefn Gwlad a Pharciau, Polisi a Chydraddoleb. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyflawni gwaith ar eu rhan neu gydweithio er mwyn datblygu a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rydym yn awyddus i weld y cyfleoedd hyn yn cynyddu er mwyn sicrhau fod y cyhoedd yn medru cael mynediad i drawstoriad eang o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Gwelwn fod potensial ehangach i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth gydag adrannau er mwyn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy fanteisio ar brofiad ac arbenigedd y Fenter. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili |
| | | | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mewn cyfarfodydd buom yn hyrwyddo partneriaethau gwahanol gan gynnwys y sefydliadau sydd ar y Fforwm Iaith â'r Fenter Iaith os yw'n berthnasol. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.2 | Annog busnesau a'r sector wirfoddol i ddefnyddio bathodynnau Iaith Gwaith er mwyn datblygu delwedd dwyieithog. | Fel rhan o brosiect Y Gymraeg mewn Busnes a Helo Blod Lleol, bu Menter Caerffili, yn dosbarthu bathodynnau, arwyddion agor a chau a llinynnau gwddf i fusnesau a sefydliadau'r sir. Yn ogystal â'r gefnogaeth ehangach i fusnesau, mae'r nwyddau hyn yn sicrhau fod nifer o fusnesau yn medru datblygu delwedd ddwyieithog sy'n annog siaradwyr Cymraeg y sir i ofyn am wasanaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Fenter Iaith ac yn hapus i gefnogi ac annog busnesau bach a'r sector gwirfoddol i ddefnyddio bathodynnau Iaith Gwaith ac ati. | Ar waith o hyd<br><br>Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022<br><br>Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili<br><br>Polisi Corfforaethol |
| 5.3 | Datblygu ymgyrch ar y cyd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol partneriaid megis llinellau ffôn, peiriannau hunan-wasanaeth. | Byddwn yn hapus i gydweithio ar ymgyrch fel hyn wrth symud ymlaen. Efallai gallwn adeiladu ar y cyfeirlyfr o fusnesau Cymraeg y Fenter Iaith a'i ehangu. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |
| 5.4 | Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i staff i ddysgu'r iaith o lefel sylfaenol i uwch/rhuglder. | Anogir a chefnogir staff Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili o hyd i gofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg a gefnogir gan yr awdurdod.<br><br>Mae staff y Blynyddoedd Cynnar sy'n gweithio mewn lleoliad gofal plant yn gallu manteisio ar gwrs Iaith Gymraeg Camau sydd wedi ei greu yn benodol ar gyfer iaith i ddefnyddio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.<br><br>Rydym wedi bod yn darparu Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle i staff ers 2001 o lefel blasu i hyfedredd. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau ar lein megis 'Say Something in Welsh' a chwrs 10 awr ar-lein Cymraeg Gwaith. Mae'r cyrsiau yn cael eu cynnig mewn modd hyblyg ac am ddim gyda staff yn cael eu cefnogi i fynychu cyrsiau. | Ar waith o hyd<br><br>Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili<br><br>Mudiad Meithrin<br><br>Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.5 | Sefydlu hyrwyddo'r Gymraeg fel amcan cydnabyddiedig i reolwyr fel eu bod yn medru darparu tystiolaeth o'r gwaith a gyflawnir i gynyddu'r nifer o weithwyr sy'n siarad Cymraeg ac i hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. | Bydd camau gweithredu o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 yn cael eu cynnwys yn Asesiadau Perfformiad y Gyfadrannau. | Ar waith o hyd | Mawrth 2022 – ymlaen | Polisi Corfforaethol |
| 5.6 | Datblygu adnodd ac 'App' sy'n dangos yr holl busnesau a gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws bywyd cymunedol. | Yn dilyn llwyddiant cynhyrchu cyfeirlyfr o fusnesau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y Sir, mae Menter Caerffili wrthi'n ymchwilio i'r cyfleoedd i ddatblygu'r adnodd fel 'ap' neu fersiwn ryngweithiol, ddigidol ohono. Fe fydd angen sicrhau cyllid digonol ar gyfer y gwaith hwn yn ogystal â chasglu adborth gan defnyddwyr presennol yr adnodd. | Ar waith o hyd | Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili |
| | | Gwnaethom gyfrannu at gyfeirlyfr y Fenter Iaith o'r busnesau roeddem yn ymwybodol ohonynt sydd yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg. Hoffi'r syniad o gael ap. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |
| 5.7 | Hyrwyddo'r cyfleoedd i ddilyn gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol fel partneriaeth o fudiadau. | Mewn partneriaeth ag aelodau Fforwm Iaith y Sir, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn ymrwymo i hyrwyddo'r cyfleoedd yn lleol i ddilyn gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn croeswu'r cyfle i gyfrannu at unrhyw ymgyrchoedd marchnata neu gyfleoedd i dargedu sectorau penodol. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili |
| | | Hyrwyddwyd swyddi gyda'r Cyngor yn nigwyddiad **Sgil Iaith Sgil Gwaith** Coleg y Cymoedd. Mae angen i ddisgyblion a myfyrwyr adnabod pa mor werthfawr yw'r Gymraeg wrth chwilio am swydd neu ddewis gyrfa. Hapus i gydweithio gyda phartneriaid i gynnal Ffair Swyddi. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |

| **Maes Strategol 6 – Seilwaith (Polisïau ac Arferion)** | **Gweledigaeth** – Bod cyrff a gwasanaethau yn integreiddio'r Gymraeg i bolisïau a gweithgareddau. | **Dyddiad yr adolygiad:**<br>**Amlder:** |
|---|---|---|

| **Blaenoriaethau Strategol** |
|---|
| • Sicrhau bod y prosesau asesu effaith yn ystyried materion iaith Gymraeg yn unol â Safonau 88-90 |
| • Sicrhau bod arferion datblygu polisi'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Creu Polisi perthnasol |
| • Sicrhau y cynhelir adolygiad o'r Strategaeth hon ar ôl 5 mlynedd fel sy'n ofynnol o dan Safon 146 |

| **Rhif** | **Gweithred** | **Sylwadau Cynnydd** | **Statws** | **Dyddiad** | **Partneriaid** |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.1 | Sefydlu'r Gymraeg fel rhan annatod o weithdrefnau/ymarferion ymgynghori (fel elfen i'w hystyried yn ogystal â'r mudiadau sy'n rhan o'r ymgynghori). | Casglwyd a chofnodwyd safbwyntiau siaradwyr Cymraeg fel rhan o holiaduron Llyfrgell Rhymni – Lleisiau'r Gymuned. | | 12/21 | Gwasanaethau Llyfrgelloedd Caerffili |
| | | Mae Menter Iaith Sir Caerffili eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor B.S. Caerffili er mwyn sicrhau fod siaradwyr Cymraeg y Sir yn medru cyfrannu at ymgynghoriadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae'r Fenter wedi cefnogi'r Panel Safbwynt, trwy gydlynu ac arwain panel cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, bu'r Fenter yn cefnogi'r broses o lunio'r Asesiad Lles a'r Cynllun Lles, trwy hwyluso sesiynau cyfrwng Cymraeg gyda'r cyhoedd. Byddwn yn parhau i gefnogi yn y modd hwn ac yn croesawu cyfleoedd pellach i gefnogi ymarferion ymgynghori Cyngor Caerffili. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Menter Iaith Caerffili |
| | | Gwnaethom sicrhau fod adrannau yn creu ethos ymgynghori yn ddwyieithog ac yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau hynny. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Fenter Iaith sy'n helpu pan fyddwn yn rhedeg ymgynghoriadau ar wahanol bynciau. Rydym yn hapus i hwyluso'r digwyddiadau ac i gynnal bwrdd o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. | Ar waith o hyd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.2 | Sefydlu'r Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygu a asesu effaith polisiau arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. | Yn Ebrill 2021 gwnaethom lansio ein ***Asesiad Effaith Integredig***. Rhaid i'r asesiad cael ei ddefnyddio ar unrhyw bolisïau, adroddiadau, prosiectau a chynigion sy'n mynd at y Cabinet am benderfyniad. Mae Adran 7 o'r Asesiad Effaith Integredig yn ffocysu ar yr iaith Gymraeg. Rhaid i'r adran gael ei chwblhau gan swyddogion gan ddangos pa effaith mae'r prosiect neu gynnig yn ei chael ar y Gymraeg yn y fwrdeistref.<br><br>O dan adran 7 o dempled adroddiadau'r Cyngor sef ***Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig***, dylid ystyried yr iaith Gymraeg. Mae canllawiau ar gael i staff ar ein porthol a dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o Safonau'r Gymraeg a'u hystyried wrth ysgrifennu polisïau. Dylid sicrhau nad oes effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg a bod y Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | Cwblhawyd ond mae'r gwaith hyrwyddo yn dal i fynd | Ebrill 2017 – Mawrth 2022 | Polisi Corfforaethol |
| 6.3 | Sefydlu ffactorau iaith Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygiadau cynllunio yn nhermau tai ac ehangu darpariaeth addysg, yn arbennig lleoedd addysg Gymraeg. | Gweler yr ymateb i 6.2 | Ar waith o hyd | Ebrill 2021 – ymlaen | Polisi Corfforaethol |
| 6.4 | Annog partneriaid ehangach i ystyried y Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygu ac asesu effaith polisiau a gweithdrefnau arfaethedig. | | | | |